




Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Ein Strategaeth

Gan fynd â ni o 2024 ymlaen i 2030



Cynnwys

| | | |
|-----------|--|----|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau | 4 |
| 3. | Cyflawni ein nodau strategol | 5 |
| 4. | Ein gwerthoedd | 8 |
| 5. | Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 10 |

1. Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon ar gyfer y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn nodi'r dull cyffredinol rydym yn bwriadu ei ddilyn rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2030, ac mae'n adeiladu ar lwyddiannau Cynllun Strategol 2019-2024.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i berfformio fel corff rheoleiddio gofal iechyd effeithiol iawn, gan gynyddu ein dealltwriaeth o sut gallai ein gweithredoedd effeithio ar neu wella ymddiriedaeth rhwng y Cyngor Osteopathig Cyffredinol – fel y rheoleiddiwr ar gyfer osteopatheg – a'r proffesiwn a chleifion.

Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a sicrhau bod gwelliant parhaus yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud a'r ffordd rydym yn ei gyflawni.

Rydym yn ymrwymo i gyflawni ein cyfrifoldebau ac i wneud hyn yn unol â'n gwerthoedd a'n hegwyddorion.

Byddwn yn gweithredu ar y cyd ac yn barchus, ar sail tystiolaeth, a byddwn yn cefnogi ac yn dylanwadu ar y rhai rydym yn gweithio gyda nhw mewn ffordd adeiladol i wella diogelwch y cyhoedd.

Byddwn hefyd yn gweithredu yn unol â'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus.

2. Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

Ein gweledigaeth yw bod yn rheoleiddiwr cynhwysol ac arloesol y mae pawb yn ymddiried ynddo.

Ein blaenoriaethau

Fel rheoleiddiwr a chyflogwr, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Mae'r rhain wedi'u trefnu dan y tair prif flaenoriaeth ganlynol:

Cryfhau ymddiriedaeth

Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd.

Hyrwyddo cynhwysiant

Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Croesawu arloesedd

Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflawni, fel ein bod ni'n parhau i wella fel sefydliad.

3. Cyflawni ein nodau strategol

Ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Cryfhau ymddiriedaeth

Meysydd allweddol

- Archwilio'r berthynas rhwng y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac osteopathiaid, a sut y gallai hyn effeithio ar ymddiriedaeth ac ar ddiogelwch cleifion.
- Gweithio mewn partneriaeth ag osteopathiaid, cleifion, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill i fodelu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau a ddisgwylir gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Datblygu ymhellach ein dull o reoleiddio ar y cyd – dyma lle mae sefydliadau ac unigolion yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd er budd diogelwch cleifion.
- Ymgysylltu ag osteopathiaid, cleifion a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ein bod yn deall ein pwrpas, ein gwaith a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r sector i ddeall y materion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chydabod cymwysterau proffesiynol.

Camau gweithredu allweddol

- Comisiynu a chyhoeddi ymchwil i'n helpu i ddeall yn well effaith rheoleiddio ar ymddiriedaeth.
- Cynnal ac asesu canlyniadau arolygon osteopathiaid rheolaidd, rhanddeiliaid ac arolygon y cyhoedd/cleifion er mwyn i ni allu mesur effaith ein gweithgareddau dros amser a chymryd camau priodol.
- Sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn seiliedig ar dystiolaeth drwy ddod â mewnwelediad o'r amgylchedd allanol i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol a chymryd camau priodol o ganlyniad i hynny.

Sut byddwn yn dangos llwyddiant

- Dangos, gyda thystiolaeth ategol o'n hymchwil, pa gamau rheoleiddio sy'n effeithio ar ymddiriedaeth, ac o ganlyniad, naill ai newid y camau hynny neu egluro'r cyfyngiadau i helpu i feithrin perthnasoedd mwy dibynadwy.
- Defnyddio mecanweithiau fel arolygon i ddangos gwelliant dros amser o ran sut mae'r ymddiriedaeth honno rhwng y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac osteopathiaid, a'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol a chleifion, yn gwella.

Hyrwyddo cynhwysiant

Meysydd allweddol

- Dal ein hunain yn atebol a dangos yr ymddygiadau rydym yn gobeithio eu gweld ar draws y proffesiwn a gyda rhanddeiliaid drwy fyw'r gwerthoedd rydym wedi cytuno arnyn nhw.
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y Cyngor a'i Bwyllgorau'n cydfynd â'r gwerthoedd y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Dadansoddi effaith ein data monitro cydraddoldeb a chymryd camau priodol o ganlyniad, er mwyn i ni allu bod yn hyderus bod ein prosesau a'n polisiau yn gynhwysol ac nad ydynt yn gwahaniaethu.
- Sicrhau bod ein strwythur llywodraethu a'n staff yn amrywiol, yn gynhwysol ac yn gallu bod yn nhw eu hunain, er mwyn i ni fod yn fwy cynrychioliadol o'r gymdeithas ehangach.

Camau gweithredu allweddol

- Gwella ansawdd data monitro cydraddoldeb a gedwir ar draws y sefydliad a chymryd camau priodol o ganlyniad.
- Recriwtio carfan amrywiol a chynhwysol o dalent i'n swyddi Gweithredol ac Anweithredol er mwyn i ni gynrychioli'r gymdeithas ehangach yn well.
- Dangos sut mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gwreiddio ei werthoedd ac yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd.

Sut byddwn yn dangos llwyddiant

- Dangos, gyda thystiolaeth ategol, bod ein prosesau rheoleiddio yn rhydd rhag gwahaniaethu drwy gyhoeddi pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud ar ôl dadansoddi data monitro cydraddoldeb.
- Dangos, erbyn 2030, fod gan ein strwythur llywodraethu fwy o amrywiaeth nag yn 2024.

Croesawu arloesedd

Meysydd allweddol

- Cefnogi'r sector addysg osteopathig i edrych ar ffyrdd gwahanol ac arloesol o fodloni canlyniadau graddedigion a darparu safonau ar gyfer addysg.
- Chwilio am ffyrdd newydd o sicrhau bod llais yr osteopath a'r claf yn parhau i fod wrth galon popeth rydym yn ei wneud.
- Croesawu datblygiad technoleg newydd i edrych ar ffyrdd gwell o weithio i wella'r profiad i'r rheini sydd mewn cysylltiad â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Datblygu strategaeth Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae'n fodel sy'n helpu sefydliad i fod yn gymdeithasol atebol iddo'i hun, ei gymuned, ei randdeiliaid a'i amgylchedd.

Camau gweithredu allweddol

- Comisiynu ymchwil i wella'r broses o ddatblygu ein gwaith ym maes addysg a hyfforddiant, safonau ac addasrwydd i ymarfer.
- Ystyried sut gellir cryfhau strwythur llywodraethu y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ymhellach gyda mewnbwn gan gleifion ac osteopathiaid.
- Creu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r strategaeth Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ar waith yn erbyn nodau clir a mesuradwy.


Sut byddwn yn dangos llwyddiant

- Dangos effaith llais osteopathiaid a chleifion ar ein gweithgareddau rheoleiddio drwy ddefnyddio metrigau.
- Dangos bod Safonau Ymarfer Osteopathig a'r Safonau Hyfforddiant yn parhau i esblygu yn unol â datblygiadau mewn ymarfer gofal iechyd modern.

Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodir uchod, byddwn yn cyhoeddi cynlluniau busnes blynyddol yn amlinellu'r manylion, yr allbynnau a'r canlyniadau penodol rydym yn bwriadu eu cyflawni.

4. Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn gweithio gyda chleifion a'r cyhoedd, osteopathiaid a rhanddeiliaid, a sut rydym yn gweithio yn ein sefydliad yn ein timau ac ar eu traws. Rydym yn **cydweithio** i fod yn rheoleiddiwr **dylanwadol a pharchus** gyda dull gweithredu sy'n **seiliedig ar dystiolaeth**.



Cydweithredol

Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod cleifion ac osteopathiaid wrth galon ein dull rheoleiddio.



Dylanwadol

Rydym yn ceisio cefnogi a datblygu'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw i wella diogelwch y cyhoedd.



Parchus

Rydym yn ceisio clywed, deall ac ystyried barn y bobl rydym yn ymgysylltu â nhw.



Yn seiliedig ar dystiolaeth

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i lywio ein gwaith i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion a'r cyhoedd.

Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

Disgwylir i'n staff, ein Cyngor ac aelodau anweithredol eraill o'r pwyllgor sy'n gweithredu ar ran ein sefydliad gadw at y saith egwyddor bywyd cyhoeddus. Mae'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus wedi'u gosod gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, sef:

- **Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

- **Uniondeb**

Rhaid i deiliaid swyddi cyhoeddus osgoi gosod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt yn amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er eu budd ariannol nac er budd materol personol arall, buddiannau eu teuluoedd na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasau.

- **Gwrthrychedd**

Rhaid i deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiudedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

- **Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, a rhaid iddynt gyflwyno eu hunain i'r prosesau craffu sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.

- **Bod yn agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

- **Gonestrwydd**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

- **Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent fynd ati'n frwd i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn gadarn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

5. Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr statudol annibynnol ar gyfer y proffesiwn osteopatheg. Mae Deddf Osteopathiaid 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu a rheoleiddio'r proffesiwn osteopatheg. Ein hamcan cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd.

Dyma ein hamcanion statudol:

- Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopatheg.
- Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn.



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU



info@osteopathy.org.uk
020 7357 6655
osteopathy.org.uk/strategy

© Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2024

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1172749)